CYNGOR CYMUNED **TREF ALAW** **COMMUNITY COUNCIL**

Porfa Las
Llanddeusant
LL65 4AD

01407 730172
07989 586677

trefalaw@gmail.com

Cyfarfod o'r Cyngor Nos Fawrth, 14 Mawrth 2017 yn Neuadd Bentref, Llanddeusant

Yn bresennol Cadeirydd Ifan Rowlands, Glyn Hughes, Trefor Jones, Owain Owen, Cynghorydd John W Griffith

Ymddiheuriadau Peredur Hughes, Arthur Jones, Geraint Owen, Iona Phillips, Ffion Roberts, John T Rowlands, Hugh Williams

1 Cofnodion cyfarfod Chwefror 2017

Darllenwyd a chadarnbawyd y cofnodion cyfarfod Chwefror 2017 gyda Glyn Hughes yn cynnig a Trefor Jones yn eilio.

2 Datgan diddordeb

Owain Owen eitem 4.1 a Cyng John W Griffith eitem 4

3 Materion â codwyd

3.1 *Ysgol Rhyd y Llan*

Nad oedd holiadur wedi ei paratoi. Cytunwyd bu'r Cadeirydd a'r Clerc yn trafod.

4 CSYM: Cynllunio

4.1 47C155: Cais amlinellol ar gyfer codi annedd sydd yn cynnwys manylion llawn am yr fynedfa a chau'r fynedfa bresennol ynghyd a gosod paced trin carthffosiaeth ar dir ger / Outline application for the erection of a dwelling together with full details of the vehicular access and the closure of the existing access together with the installation of a package treatment plant on land adjacent to : *Plas Newydd, Llanddeusant – newidiadau i'r safle*

Cytunwyd y newid.

4.2 47C158: Cais i bennu os oe angen caniatâd blaenorol ar gyfer codi sied amaethyddol ar dir yn / Application to determine whether prior approval is required for the erection of an agricultural shed on land at : *Hen Bont, Llanddeusant*

Dim gwrthwynebiad ond hefyd dim yn gwybod os oes angen caniatâd blaenorol am 'na'r Adran Cynllunio sydd yn gwybod.

5 Penodi Archwiliwr Mewnol

Cytunwyd penodi Mr John D Roberts fel Archwiliwr Mewnol unwaith eto.

6 Mabwysiadu Dogfennau Swyddogol 2017

a) Financial Regulations
b) Model Standing Orders
c) Risk assessments

Roedd y dogfennau wedi ei dosbarthu o flaen llaw a mabwysiadwyd heb newidiadau.

7 Ceisiadau am Gymorth Ariannol

Y Rhwyd
Cylch Meithrin Llanfaethlu
Canolfan C Ff I Môn
Ambiwlans Awyr Cymru
Urdd (Ynys Môn)

Theatr Bara Caws
Llangollen 2017
Shelter Cymru
British Red Cross (Cymru)
Marie Curie Nursing (Gogledd Cymru)
Macmillan Cancer Support (Gogledd Cymru)
Walk for Life (Kidney Wales)
Bobath Children's Therapy Centre Wales

Penderfynwyd rhoid £100 yr un i Y Rhwyd a Cylch Meithrin Llanfaethlu, a £25 yr un i Marie Curie a Macmillan – cyfanswm £250 o dan S137 o'r LGA.

8 CSYM:

a) *Arbrawf Gorfodaeth* : cyntuno mewn egwyddor i CSYM cyflogi cwmni gorfodi preifat allanol (Kingdom) i wneud y gwaith o roi dirwyon cosb sefydlog ar gyfer gollwn sbwriel a methu â chlirio baw cŵn. Dim cost i'r Cyngor.
b) *Caniatâd Arbennig* : nodwyd bod trefniadau wedi newid.
c) *Fforwm Cyswllt* – 29 Mehefin : nodwyd.

9 Etholiadau Cyngor Sir, Cymuned/Tref – 4 Mai 2017

I'r aelodau oedd yna, dosbarthwyd y Clerc 'Pecyn Papur Enwebu' sydd angen ei lenwi a danfon i'r Swyddfa Gwasanaethau Etholiadol yn Llangefni erbyn 4pm dydd Mawrth, 4ydd Ebrill 2017. Mi fydd yn dosbarthu'r gweddill mor fuan a phosib.

10 Taliadau cyn diwedd Mawrth

Bu angen talu'r Clerc a'r Neuadd cyn diwedd y mis a bu'r Clerc yn trefnu.

11 Materion ychwanegol

- *Hysbysfwrdd Tref Alaw*: ar hyn o bryd mae hwn tu allan i'r Hen Ysgol a bu rhaid ei symud yn fuan i'r Neuadd Bentref. Mi fydd cost un newydd eitha sylweddol.
- *Hwylusydd Tai Gwledig/Rural Housing Enabler*: bu prynhawn agored ar 30 Mawrth yn y Neuadd Bentref ar gyfer tai fforiadwy yn safle'r Hen Ysgol.
- *Ynys Môn : Beth Sy'n Bwysig?* Asesiad Llesiant Gwynedd a Môn
- Diolchodd Cynghorydd John W Griffith am gefnogaeth a cyfeillgarwch y Cyngor Cymuned yn ystod ei amser fel cynrychiolydd Talybolion, gobeithio gweld ar ôl yr etholiad.

Taliadau cytunwyd: I mewn Allan

Y Rhwyd (s137 rhoddion)	£100
Cylch Meithrin Llanfaethlu (s137 rhoddion)	£100
Marie Curie Cancer Care (s137 rhoddion)	£25
Macmillan Cancer Care (s137 rhoddion)	£25
JD Roberts – internal audit 2015-16	£69
Anna Jones (cyflog £1700, costau £300 – tax)	£1,660
HMRC [ref 475PC00487703]	£340